**CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2011**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd G. O. Jones - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd R.Ll. Jones - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, Jim Evans, Lewis Davies, R. Anthony Dew, R. Ll. Hughes, T. Ll. Hughes, W. I. Hughes, W. T. Hughes, K. P. Hughes, Aled M. Jones, Eric Jones, H. Eifion Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, T. H. Jones, C. McGregor, J. V. Owen, R. L. Owen, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, J. Arwel Roberts, P. S. Rogers, E. Schofield, J. P. Williams, S. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Rheolydd Cynllunio Busnes a Rhaglen.<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Comisiynwyr B Davies, M. Giannasi a Gareth Jones. |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Comisiynwyr Alex Aldridge a Margaret Foster, y Cynghorwyr B. Durkin, K. Evans, C. Ll. Everett, Ff. M. Hughes, O. Glyn Jones, Bryan Owen, R. G. Parry OBE, G. W. Roberts OBE, I. Williams. |

---

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd R. Dylan Jones

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim.

**2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIAD GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at anhwylder y Cynghorydd B. Durkin ac, ar ran Aelodau a Swyddogion yr Awdurdod, PENDERFYNWYD cyfleu dymuniadau gorau'r Cyngor iddo am adferiad llawn a buan.

Llongyfarchodd y Cadeirydd Dîm Rygbi'r Undeb Cymru ar gyrraedd rownd gynderfynol Cwpan y Byd yn Seland Newydd, lle collodd y tîm o drwch blewyn yn erbyn Ffrainc o 9-8. Talodd deyrnged hefyd i George North, dyn lleol, a oedd wedi perfformio'n eithriadol o dda yn ystod y gystadleuaeth. Bydd y Cadeirydd yn gwneud trefniadau i anfon llongyfarchiadau'r Cyngor hwn i Dîm Cymru a'i reolwyr.

Ar nodyn tristach, cydymdeimlwyd gyda theulu Mrs Ann Marie Jones, Arweinydd y Tîm Plant ag Anableddau a fu farw'n ddisymwth dros y penwythnos.

Yn ogystal, cydymdeimlodd y Cadeirydd ag unrhyw Aelod Etholedig neu aelod o staff a oedd wedi cael profedigaeth. Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn teyrnged dawel fel arwydd o'u parch.

Draft

**3. CYNLLUN GWELLA CORFFORAETHOL 2010/11 - ADOLYGIAD SY'N EDRYCH YN ÔL DROS BERFFORMIAD**

Adroddwyd – Bod y Bwrdd Comisiynwyr, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2011, wedi penderfynu fel a ganlyn ar ôl rhoi sylw i'r adroddiad uchod:-

*"Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn derbyn cynnwys yr adroddiad a rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) mewn ymgynghoriad gyda'r Comisiynydd perthnasol, gwblhau'r ddogfen yn derfynol."*

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) – Bod Blaenoriaethau Gwella'r Cyngor (Cynllun Busnes Corfforaethol) wedi ei gyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo ar 5 Gorffennaf 2010. Yn ogystal, roedd angen adolygu'r Adolygiad Perfformiad blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ac a oedd yn rhoi sylw i berfformiad yn y gorffennol. Roedd yr adroddiad hwn yn ymwneud â chynhyrchu'r Adolygiad Perfformiad drafft a oedd yn 'edrych yn ôl' dros berfformiad y Cyngor yn 2010/11 ac fe gafodd ei gyflwyno fel crynodeb byr o'r prif benawdau o fewn y ddogfen Adolygu Perfformiad.

Roedd y Cynllun Gwella yn edrych ar sut oedd y Cyngor yn rhoi sylw i'w ddyletswydd statudol i sicrhau gwelliant parhaus fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer gwella a Mesur Llywodraeth Leol 2009.

Soniodd y Cynghorydd Tom Jones at wallau ar dudalen 47 yr adroddiad o ran yr adolygiad o'r sefyllfa ariannol. Nodwyd bod y balansau cyffredinol yn £6.8m a bod y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i fyny i £12.9m. O edrych ar y cyfrifon blynyddol drafft, roedd y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn £13.1m. Nid oedd y ffigyrau yn cyd-fynd â'i gilydd a gofynnodd am eglurhad.

Yn ei ymateb, dywedodd y Cynghorydd W. J. Chorlton nad oedd ganddo'r ffigyrau manwl i law ond y byddai'n sicrhau y byddai'r ffigwr cywir yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad.

Gofynnodd y Cynghorydd A. Morris Jones a fyddai modd cael adroddiad interim i'r cyfarfod o'r Cyngor ym mis Rhagfyr ar y cynnydd a wnaed?

Ymatebodd y Cynghorydd W. J. Chorlton trwy ddweud y byddai'n ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud hynny o fewn yr amserlen ond na allai rhoi unrhyw sicrwydd heddiw i'r Cynghorydd Jones y byddai modd cwrdd â'i gais.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad uchod y Bwrdd Comisiynwyr gyda'r amod y gofynnir i'r Pwyllgor Sgrwitini perthnasol ystyried y dirywiad yn y dangosyddion perfformio ar gyfer 2010/11 fel rhan o'u rhaglenni gwaith unigol.**

Draft

Daeth y cyfarfod i ben am 2:20pm

**Y CYNGHORYDD G. O. JONES**
**CADEIRYDD**